Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2025/26

Cefndir a Chyflwyniad

Dyma'r pumed hunanasesiad i Gyngor Gwynedd ei gynnal dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i bob Cyngor yng Nghymru adolygu'n barhaus i ba raddau y mae'n bodloni'r 'gofynion perfformiad', hynny yw i ba raddau:-

i. y mae'n arfer ei swyddogaethau yn effeithiol;
ii. y mae'n defnyddio ei adnoddau yn ddarbodus, yn effeithiol ac yn effeithlon;
iii. y mae gan y Cyngor drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith i sicrhau gofynion perfformiad i. a ii.

Eleni, fel y llynedd, rydym yn ystyried y tri chwestiwn yma yng nghyd destun cryfderau a risgiau/heriau pob un o'r blaenoriaethau yng Nghynllun y Cyngor. Pwrpas y Cynllun 5 mlynedd hwn yw gosod gweledigaeth a blaenoriaethau'r Cyngor ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2023 a diwedd Mawrth 2028, felly mae ystyried y tri chwestiwn uchod wrth fanylu ar ein prif gryfderau a risgiau/heriau yn ddull addas ac effeithiol o daflu golau ar berfformiad y Cyngor.

Ers mabwysiadu'r Cynllun 5 mlynedd, mae adolygiadau blynyddol wedi eu cynnal er mwyn sicrhau fod y Cynllun yn parhau i fod yn berthnasol a'i fod yn ymateb i anghenion a blaenoriaethau cyfredol y Cyngor.

Fel rhan o'r broses o ddatblygu'r Cynllun fe ystyriwyd ystod eang o faterion i'w blaenoriaethu a bu i ni ymgysylltu ac ymgynghori gyda phobl leol, aelodau etholedig, Cynghorau Tref a Chymuned a phartneriaid. Un rhan o waith oedd yn allweddol yn natblygiad Cynllun y Cyngor oedd gwaith Ardal Ni sy'n amlinellu'r hyn sy'n dda am yr ardal, yr hyn sydd ddim cystal, a'r hyn sydd angen ei wneud er mwyn creu gwell ardal erbyn 2035.

Bwriad y broses hunanasesu yw annog gonestrwydd, gwrthrychedd a thryloywder ynghylch perfformiad a llywodraethu'r Cyngor. Er bod y ddyletswydd hon yn un eithaf newydd, mae'r Cyngor eisoes yn paratoi nifer o ddogfennau sy'n cynnwys y math o wybodaeth sy'n ddisgwyliedig i ni ei gynnwys o fewn yr hunanasesiad. Mae hyn yn cynnwys dogfennau megis adroddiadau blynyddol Perfformiad, Cydraddoldeb, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, Datganiad Cyfrifon Blynyddol a'r Datganiad Llywodraethu.

Y Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu, sy'n cynnwys swyddogion megis y Prif Weithredwr, Pennaeth Cyllid, Pennaeth Gwasanaethau Corfforaethol a'r Pennaeth Gwasanaeth Cyfreithiol ymysg eraill, sydd wedi arwain/cymryd trosolwg o'r gwaith hyn o fewn y Cyngor. Bwriad hyn yw sicrhau fod y gwaith yn cael ei berchnogi a'i arwain ar lefel strategol.

Yn ystod y flwyddyn cynhaliwyd Asesiad Perfformiad Panel annibynnol ar waith y Cyngor. Mae angen cynnal Asesiad Panel o leiaf unwaith o fewn cylch etholiadol ac mae'n gysylltiedig â'r ddyletswydd i fod yn cynnal hunanasesiadau blynyddol ar berfformiad gyda'r dogfennau hyn yn ffurfio rhan o'r sail dystiolaeth.

Mae ein trefniadau herio a chefnogi perfformiad wedi bod yn eu lle ers sawl blwyddyn bellach. Cynhelir cyfarfodydd ar lefel Adrannol bob yn ail fis, a maent yn canolbwyntio ar gynnydd prosiectau Cynllun y Cyngor, perfformiad gwasanaethau (sef y gwaith 'dydd i ddydd'), a'r ymateb i'r prif risgiau o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol. Mae'r wybodaeth wedyn yn bwydo i mewn i adroddiadau perfformiad rheolaidd a gyflwynir gan bob Aelod Cabinet yn ystod y flwyddyn ynghyd â'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Ceir copi o Adroddiadau Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar wefan y Cyngor. Gwnaethpwyd addasiadau i'r trefniadau herio a chefnogi perfformiad o Ebrill 2025 ymlaen, pan gyflwynwyd trefn i adrodd yn uniongyrchol i'r Pwyllgorau Craffu. Mae hyn wedi arwain at roi mwy o fewnbwn i'r broses herio a chefnogi perfformiad ar gyfer aelodau.

Mae'r ddogfen yn cynnwys asesiad o'n trefniadau llywodraethu gan ymateb i'r 3 gofyniad perfformiad y disgwylir i Gynghorau ymateb iddynt fel rhan o'r hunanasesiad. Rydym hefyd wedi ystyried y fethodoleg ddrafft a gyhoeddwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ar gyfer Asesiadau Panel wrth baratoi'r hunanasesiad ar gyfer 2024/25 gan ymateb i'r cwestiynau canlynol:

- Pa mor dda 'rydym ni'n gwneud?
- Sut 'rydym ni'n gwybod hynny?
- Beth allwn ni wneud er mwyn gwella, a sut?

Yr hunanasesiad ar gyfer 2021-22 oedd ein hasesiad cyntaf a rhoddwyd camau mewn lle er mwyn cyfarch y gwelliannau oedd wedi eu hadnabod. Gwelwyd bod rhai o'r gwelliannau hynny yn parhau yn y blynyddoedd canlynol gan eu bod yn faterion hirdymor, ond ategwyd nifer o bwyntiau ychwanegol hefyd. Eleni, gwelir y patrwm yn parhau, gyda'r materion hirdymor yn ail-ymddangos ond gydag ystyriaethau newydd yn cael eu hychwanegu yn ogystal.

Mae'r ddogfen hon felly yn grynodeb lefel uchel o berfformiad y Cyngor yn ystod 2025/26, wedi ei gategoreiddio fel cyfres o Gryfderau a Risgiau/Heriau dan bob maes blaenoriaeth sy'n cyd-fynd â'r blaenoriaethau a welir yn yr Adroddiad Blynyddol ac yng Nghynllun y Cyngor.

Mae'r Cryfderau yn seiliedig ar:

- uchafbwyntiau yr adroddiad perfformiad blynyddol
- adborth sydd wedi ei dderbyn gan gyrff archwilio allanol (e.e. Archwilio Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Estyn etc.)
- Materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol
- Asesiad Perfformiad Panel annibynnol

Mae'r Risgiau/Heriau yn seiliedig ar:

- ein prif risgiau fel a nodir yn y gofrestr risg corfforaethol
- materion wedi eu hadnabod gan gyrff archwilio allanol
- materion eraill yr ydym wedi eu hadnabod a'u cynnwys yng Nghynllun y Cyngor
- materion yn deillio o'r broses herio a chefnogi perfformiad mewnol
- Asesiad Perfformiad Panel annibynnol

Mae'n bwysig nodi fod nifer fawr o'n cryfderau wedi eu cynnwys yn rhannau eraill yr adroddiad blynyddol, yn enwedig ble mae nhw'n ymwneud â phrosiectau Cynllun y Cyngor a'n gwaith dydd-i-ddydd. Er mwyn osgoi ail-adrodd, nid ydym (gan amlaf) yn eu rhestru yn yr Hunanasesiad hefyd. I'r darllenydd, bydd ystyried y ddwy ddogfen (yr Adroddiad Blynyddol a'r Hunanasesiad) gyda'i gilydd yn rhoi darlun llawnach o berfformiad y Cyngor dros y cyfnod dan sylw.

Er bod nifer o'r blaenoriaethau yn cynnwys cyfrifoldebau traws-adrannol, dylid nodi fod 'Gwynedd Effeithlon' yn llawer mwy corfforaethol ei natur gan fod nifer o'r cryfderau a'r gwendidau sydd i'w gweld yma yn rhai sefydliadol. Mae'r flaenoriaeth yma ychydig yn wahanol i'r gweddill felly, sy'n fwy tueddol o adlewyrchu cryfderau a gwendidau adrannol.

Yn unol ag adrannau 90 a 91 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, mae'r Cyngor wedi ystyried safbwyntiau pobl leol, pobl sy'n defnyddio gwasanaethau'r Cyngor, undebau llafur cydnabyddedig, busnesau, partneriaid a rhanddeiliaid eraill wrth ddod i'w gasgliadau ynghylch ei berfformiad yn ystod 2025/26.

Casglwyd y safbwyntiau hyn drwy ystod o weithgareddau, gan gynnwys yr Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, arolygon ac ymgynghoriadau lleol, yr Arolwg Llais Staff, trafodaethau ag undebau llafur, adborth a chwynion defnyddwyr gwasanaethau, a gwaith ymgysylltu a gynhaliwyd wrth ddatblygu ac adolygu cynlluniau'r Cyngor.

Mae'r dystiolaeth hon wedi'i hystyried ochr yn ochr â gwybodaeth am berfformiad gwasanaethau, sefyllfa ariannol y Cyngor, risgiau corfforaethol, adborth cyrff archwilio ac arolygu, ac Asesiad Perfformiad y Panel. Mae wedi dylanwadu ar y cryfderau, y risgiau a'r gwelliannau a nodir yn yr hunanasesiad hwn. Yn benodol, mae barn trigolion wedi cyfrannu at y casgliad bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth a bodlonrwydd, dangos gwerth am arian, sicrhau bod barn trigolion yn dylanwadu ar benderfyniadau, a gwella'r defnydd o wybodaeth ymgysylltu i lywio gwasanaethau.

Gwynedd Effeithlon

Cryfderau

- Mae'r Cyngor wedi llwyddo i ddygymod gyda chyfnodau o lymder/diffyg arian yn effeithiol, ond mae'r sefyllfa yn dod yn gynyddol anoddach wrth i'r cyllid a ddarperir gan y Llywodraeth leihau. Mae'r Cyngor yn pryderu yn fawr am y pwysau mae hyn yn ei roi ar drigolion y sir i gwrdd â lefel gymharol uchel y Dreth Cyngor (y 6ed uchaf yng Nghymru, pan fo lefelau incwm trigolion y Sir yn gymharol isel), ynghyd â gallu'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau digonol i boblogaeth Gwynedd o fewn ein cyllideb.
- Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu yn cadw golwg parhaus, disgybledig ar faterion llywodraethu, yn codi ymwybyddiaeth ehangach ohonynt, ac yn hybu perchnogaeth ehangach o'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Mae'r Grŵp yn cynnwys y Prif Weithredwr, y Swyddog Monitro, y Swyddog Adran 151, Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cynorthwyol Cefnogaeth Gorfforaethol, Pennaeth Cyllid Cynorthwyol, y Rheolwr Risg & Yswiriant a'r Rheolwr Gwasanaeth Cefnogi Busnes y Cyngor.
- Mae gennym drefniadau Llywodraethu corfforaethol da ar y cyfan. Er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'n swyddogaethau yn effeithiol, rydym yn gosod mesurau perfformiad mewn lle er mwyn herio perfformiad ar draws yr holl wasanaethau. Rydym yn adolygu'r mesurau hyn o dro i dro er mwyn sicrhau eu bod yn parhau i fod yn berthnasol, ac rydym yn ymwybodol o'r angen i herio ein hunain yn barhaus a gosod mesurau sydd yn ystyrlon er mwyn ein caniatáu ni i wella yn gyson. Rydym yn cydnabod fod gennym le i wella o safbwynt y gwaith o flaengynllunio llif gwaith manwl dros gyfnod Cynllun y Cyngor 2023-28, ac o ganlyniad rydym wedi cyflwyno cyfres o gerrig milltir blynyddol ar gyfer pob un o'r prosiectau er mwyn caniatáu i ni fesur cynnydd yn ogystal â chynllunio gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae'r gwaith i wella hyn ymhellach yn parhau, yn enwedig er mwyn sicrhau fod y trefniadau sydd mewn lle yn cael eu dilyn yn gyson.
- Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu codau ymddygiad ar gyfer ei aelodau a swyddogion, yn seiliedig ar reoliadau cenedlaethol (codau fel y Cod Perthynas Aelod/Swyddog; y Cod Ymddygiad Aelodau; y Cod Ymddygiad Swyddogion; Y Polisi Gwrth Dwyll a Llygredd a'r Cod Ymarfer Canu'r Gloch) ac mae rhain at ei gilydd yn gosod sylfaen ar gyfer sicrhau intergriti a moeseg. Mae tystiolaeth glir fod y Cyngor yn rhoi ystyriaeth ddilys i adroddiadau'r Ombwdsman fel rhan o waith y Pwyllgor Safonau, sy'n gweithio'n effeithiol.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi Datganiad Llywodraethu blynyddol sy'n amlinellu ein trefniadau llywodraethu a'u heffeithiolrwydd gan ddilyn egwyddorion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government.
- Cynhelir gweithdy blynyddol ar sicrwydd ac ansawdd gydag archwilwyr allanol (Archwilio Cymru, Arolygaeth Gofal Cymru ac Estyn) er mwyn rhannu ein cryfderau/llwyddiannau a risgiau/heriau.
- Pan gyhoeddir argymhellion gan gyrff archwilio allanol, bydd ymateb sefydliadol yn cael ei baratoi ar ran y Cyngor ac mae'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn gyfrifol am

adolygu ac asesu'r ymateb ynghyd â'r cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Yn 2025 cyflwynwyd trefn newydd ble mae adrannau yn cael uchafswm o 12 mis i weithredu ar argymhellion archwilwyr allanol. Bydd hyn yn sicrhau fod y Cyngor yn ymateb ac yn gweithredu yn brydlon yn dilyn argymhellion yr archwilwyr.

- Mae Cynllun Gwybodaeth y Cyngor 2021-2026 (diweddariad 2024) yn cynnwys nifer o gynlluniau ar gyfer mynd i'r afael â risgiau rheoli gwybodaeth a'r defnydd o ddata. Mae'r Grŵp Gwybodaeth trawsadrannol yn cymryd trosolwg corfforaethol o'r maes yma.
- Mae Polisi Iechyd a Diogelwch wedi ei fabwysiadu gan y Cyngor sy'n cael ei adolygu'n flynyddol. Ceir trefniadau priodol i ymateb i unrhyw adroddiadau gan Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch (HSE).
- Noder bod prif risgiau llywodraethu wedi eu sgorio yn gorfforaethol ac ar lefel Adran gan fod lefel y risg yn amrywio. Mae'r Grŵp Asesu Trefniadau Llywodraethu mewnol gyda throsolwg ac yn gyfrifol am sicrwydd ansawdd o fewn Cyngor Gwynedd.
- O ran materion llywodraethu arwyddocaol, bu i hunan-asesiad gan y Cyngor o'i drefniadau llywodraethu (yn unol â gofynion Fframwaith CIPFA/Solace Delivering Good Governance in Local Government a gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021) adnabod y gwelliannau canlynol fydd yn cael eu gweithredu yn 2026-27:
  - Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.
  - Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.
  - Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn yr adroddiad Asesiad Panel.
  - Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.
  - Gweithredu ar ganfyddiadau Arolwg Llais Staff, gan gynnwys gwerthfawrogiad a llesiant.
- Mae Cynllun Rheoli Asedau newydd ar gyfer y cyfnod 10 mlynedd 2024-2034 wedi cael ei fabwysiadu gan y Cyngor ar 11 Gorffennaf 2024.
- Yn ystod 2025/26 comisiynwyd *Local Partnerships* i gynnal adolygiad o'n trefniadau llywodraethu, gan roi her annibynnol a gwrthrychol i'r Cyngor yn ogystal â chynnig argymhellion i wella. Rhoddwyd sylw penodol i:
  i. Gynnal adolygiad trwyadl o'n trefniadau presennol gan gynnwys ein trefniadau llywodraethiant a threfniadau ariannol.
  ii. Adolygu ein trefniadau llywodraethiant yng nghyd-destun y Cyfansoddiad presennol er mwyn asesu os yw'n addas i bwrpas.
  iii. Asesu os yw'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn cyflawni ei bwrpas.
  iv. Adnabod sut rydym yn cyrraedd yr ystod llawn o ofynion statudol wrth wneud penderfyniadau, e.e. Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, Y Gymraeg.
  v. Gwerthuso'r modd yr ydym yn adnabod ac asesu risgiau ac yn eu hadolygu a'u monitro.
  vi. Gwerthuso'r modd yr ydym yn monitro a chyflawni argymhellion i wella gan reoleiddwyr allanol a mewnol gan ddysgu gwersi ar draws y sefydliad.
  vii. Adnabod beth allwn ei wneud er mwyn cryfhau ein trefniadau llywodraethiant i'r dyfodol.

- Mae gan y Grŵp Llywodraethu raglen waith ar waith i ymateb i'r argymhellion a ddeilliodd o waith *Local Partnerships*.
- Mae gan y Cyngor broses i reoli risgiau drwy gael Cofrestr Risg Corfforaethol yn ei lle.
- Yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021, cynhaliwyd Asesiad Panel annibynnol ar drefniadau llywodraethu Cyngor Gwynedd yn ystod Mawrth 2026. Roedd y Panel yn cydnabod fod gwaith pellach i'w wneud er mwyn cysoni'r trefniadau rheoli risg, ac mae hyn yn cynnwys parhau i adolygu'r drefn er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad. Byddwn yn gweithredu cynllun ymateb i argymhellion y Panel, a fydd wedi eu plethu gyda'r ymateb i argymhellion ein hyswirwyr. Bydd y camau gweithredu hyn yn rhoi'r Cyngor mewn lle cryfach o ran cysoni'r broses o adnabod, asesu, sgorio a lliniaru risgiau.
- Er bod y drefn a strategaethau rheoli risg i'r dyfodol yn gwella a chryfhau ar y cyfan, mae trefniadau newydd wedi eu rhoi yn eu lle er mwyn ceisio safoni a cheisio cysoni y sgoriau ar gyfer risgiau uchel iawn. Yn ystod 2025/26 comisiynwyd ein hyswirwyr i adolygu ein trefniadau rheoli risg a bydd eu hargymhellion yn cael eu gweithredu yn ystod 2026/27Bydd gwaith Archwilio Cymru i gynnal Adolygiad o Drefniadau Rheoli Risg y Cyngor yn ystod 2026/27 (wedi llithro o 2025/26) yn bwydo i'r gwaith yma, ynghyd ag argymhellion adolygiad *Local Partnerships*.
- Mae'r strategaeth i reoli risgiau wedi'i berchnogi ar lefel gorfforaethol drwy'r Grŵp Llywodraethu y cyfeirir tuag ato uchod, gyda'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn herio'r sgoriau risg llywodraethu.
- Awgrymodd yr Asesiad Panel fod angen i'r Cyngor ddatblygu a chytuno ar strategaeth risg gorfforaethol sy'n mynegi archwaeth risg y cyngor ac yn:
    i. Sicrhau cofrestr a strategaeth risg gorfforaethol gyfoes
    ii. Diffinio rôl y tîm arweinyddiaeth, y pwyllgor llywodraethu ac archwilio, y cabinet, a'r cyngor llawn wrth oruchwylio a monitro'r strategaeth a'r gofrestr yn rheolaidd
    iii. Ystyried anghenion hyfforddi a datblygu aelodau ar oruchwylio risg y cyngor

  O ganlyniad, byddwn yn:
    i. Cwblhau a chyflwyno'r Strategaeth a Pholisi Rheoli Risg Corfforaethol (gan gynnwys datganiad archwaeth risg) i'w gymeradwyo gan y Cabinet/Cyngor Llawn, ac adolygiad blynyddol gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
    ii. Sicrhau bod y Gofrestr Risg Gorfforaethol yn gyfoes: safoni'r templed cofrestr risg, diffinio perchnogion risg, a chadarnhau bod pob risg yn cynnwys sgoriau Cyfredol (Residual) a Tharged (Target) gan ddefnyddio matrics 5x5 y Cyngor.
    iii. Gosod trefniadau llywodraethu, adrodd ac adolygu:
        a. Tîm Rheoli Corfforaethol i adolygu'r Gofrestr Risg Gorfforaethol yn chwarterol a chytuno ar esgyn/diraddio risgiau;
        b. adrodd chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu;
        c. Cabinet i osod archwaeth risg y Cyngor, gan sicrhau bod penderfyniadau'n ystyried risgiau ac yn aros o fewn y terfynau, tra'n adolygu a gwella trefniadau rheoli risg yn rheolaidd.

iv. Datblygu a darparu rhaglen hyfforddi a datblygu ar reoli risg ar gyfer Aelodau (gan gynnwys rôl goruchwylio, archwaeth risg, darllen cofrestr risg, a herio rheolaethau), ac i reolwyr fel "perchnogion risg"; cofnodi presenoldeb a chynnal sesiynau adnewyddu'n flynyddol.

- Atgyfnerthu'r broses a'r diwylliant: sefydlu amserlen adolygu cofrestrau risg gwasanaeth (o leiaf chwarterol), defnyddio dull "SMART" i olrhain camau lliniaru, a chofnodi "gwersi a ddysgwyd" o ddigwyddiadau/awdits i lywio gwelliant parhaus.
- Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2025/26, ystyriwyd bod fframwaith rheolaeth fewnol Cyngor Gwynedd yn ystod y flwyddyn ariannol honno yn gweithredu ar lefel sicrwydd rhesymol ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu'r Awdurdod, rheoli risg a rheolaeth fewnol.
- Mae Gwynedd yn awdurdod lletya i nifer o bartneriaethau gwahanol, ac mae'n darparu cefnogaeth effeithiol ar eu cyfer.
- Mae trefniadau cadarn mewn lle ar gyfer cefnogi Aelodau Etholedig yng Ngwynedd, gyda 97% o Gynghorwyr Gwynedd yn adrodd bod y gwasanaeth gan y Tîm Democratiaeth yn dda/dda iawn. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y seiliau cadarn hyn yn ystod y flwyddyn i ddod.
- Mae'r Pennaeth Cyllid wedi cynnal hunanasesiad o gydymffurfiaeth gyda Chod Rheolaeth Ariannol CIPFA, ac yn ei ddiweddaru o leiaf unwaith y flwyddyn a mae'r asesiad cyfredol yn dangos cydymffurfiaeth uchel ar draws pob un o'r safonau. Ers 2025, rydym wedi comisiynu CIPFA i ymgymryd â gwiriad annibynnol o'r hunanasesiad, a bydd canlyniad y gwaith hwnnw yn cael ei ystyried wrth ddylunio gwasanaeth cefnogaeth gyllidol ar gyfer y dyfodol.
- Ers 2019, mae'r Cynllun Prentisiaethau wedi rhoi cyfle i **103** o unigolion ar gytundeb prentis sy'n un o'r niferoedd uchaf yng Nghymru wrth gymharu gyda phoblogaeth a maint Cynghorau eraill. Yn yr un modd, ers 2017, mae'r Cynllun Graddedigion, sef Cynllun Yfory, wedi rhoi cyfle i **47** hyfforddai proffesiynol. Mae nifer o enghreifftiau o lwyddiant, gydag amryw o unigolion sydd wedi cychwyn ar y cynlluniau yn derbyn dyrchafiadau a swyddi parhaol o fewn y Cyngor. Ar gyfer 2026, mae cyfanswm o **30** o swyddi newydd ar gael, sef 22 swydd prentis a 8 swydd i raddedigion gyda rhan fwyaf wedi eu llenwi yn barod. Mae meysydd y swyddi yn amrywio – o feysydd newydd fel cynnal tiroedd, coedyddiaeth a marchnata digidol, i rhai sefydlog megis Peirianneg Sifil, Cyllid a Busnes i enwi dim ond rhai. Canmolwyd y cynlluniau gan Archwilio Cymru mewn adroddiad diweddar yn 2026.
- Cynhaliwyd Arolwg Llais Staff yn 2026. Roedd hyn yn dilyn cyfnod heriol oedd yn cynnwys ansicrwydd cyllidol, newidiadau gwleidyddol yn y Cyngor, a chyfnod o gyflwyno newidiadau pellach i'n trefniadau gwaith 'gweithio i'r dyfodol'. Gwelwyd cynnydd bychan yn lefel bodlonrwydd staff mewn ymateb i'r mwyafrif o'r cwestiynau, ac mae'r lefel bodlonrwydd yn parhau yn uchel ar gyfer rhai o'r prif ddangosyddion e.e. y sgôr ar gyfer y datganiad 'mae'r Cyngor yn lle da i weithio' yn 80%, ac yn 88% ar gyfer "Mae fy ngwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Gwynedd." Fel ag yn arolwg y llynedd, roedd 4 rhan i'r arolwg eleni – Fi a'm Llesiant, Fi a'm swydd, Fi a'm gwasanaeth, a Fi a'm Cyflogwr.

Gwelwyd fod rhai o'r themâu ddaeth i'r amlwg y llynedd a'r flwyddyn flaenorol yn cael eu hailadrodd, yn enwedig materion yn ymwneud â derbyn gwerthfawrogiad a chydnabyddiaeth, ac er fod gwelliant wedi bod, mae'r rhain yn parhau yn bwyntiau i'w gwella. Mae pwysau gwaith, sydd o bosib yn ganlyniad i'r wasgfa ariannol sydd wedi wynebu'r cyngor dros y blynyddoedd diwethaf, wedi gwella ychydig ond mae'n parhau i fod yn bryder a bydd hyn hefyd yn derbyn sylw pellach.

Cwblhaodd 1,279 o staff yr holiadur Llais Staff, sef tua 21% o'r staff gafodd gyfle i ateb yr arolwg. Gan gynnwys staff y Cyngor a staff ysgolion y sir, nododd 69.6% eu bod yn cytuno neu cytuno'n gryf fod y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau yn effeithiol. Roedd 65.8% yn cytuno neu cytuno'n gryf fod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ganddo, ac roedd 69.2% yn cytuno neu cytuno'n gryf fod gan y Cyngor drefniadau yn eu lle i sicrhau ei fod yn perfformio yn effeithiol.

Mae'r canlyniadau uchod yn debyg iawn i'r hyn adroddwyd y llynedd.

- Mae Cyngor Gwynedd wedi sefydlu Grŵp Cyswllt rhwng y Cyngor a'r undebau llafur ers nifer o flynyddoedd ac mae'r grŵp yn cyfarfod yn fisol. Cryfhawyd y trefniadau partneriaeth gymdeithasol yn ystod y flwyddyn drwy gynnal cyfarfodydd rhwng Prif Swyddogion y Cyngor, gan gynnwys y Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, a'r undebau llafur. Defnyddiwyd y cyfarfodydd hyn i drafod materion strategol sy'n effeithio ar y sefydliad a'r gweithlu, gan gynnwys Cynllun y Cyngor a'r gyllideb.
- Fel rhan o'r broses o lunio Hunanasesiad y Cyngor ar gyfer 2025/26, gofynnwyd i'r undebau llafur cydnabyddedig am eu hadborth a'u sylwadau ar berfformiad yr awdurdod a meysydd posibl i'w gwella. Ni dderbyniwyd ymateb ffurfiol i'r cais hwn ond byddwn yn parhau â'r drafodaeth yng nghyfarfodydd y Grŵp Cyswllt a'r cyfarfod efo'r Prif Swyddogion.
- Mae'r Cyngor yn casglu barn pobl y sir mewn sawl ffordd wahanol er mwyn gwella gwasanaethau a hefyd er mwyn cwrdd y gofyniad cyfreithiol sydd ar gynghorau i ymgysylltu â phreswylwyr dan wahanol ddeddfau fel Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.
- Yn 2025 roedd Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol, y cyntaf o'i fath i'w gynnal yng Nghymru. Er ein bod yn sylweddoli cyfyngderau arolwg o'r fath, mae'n fodd ychwanegol o gasglu barn a byddwn yn triongli'r canfyddiadau gyda data a gwybodaeth eraill a gesglir gennym er mwyn sicrhau ein bod yn ymateb yn briodol. Un mantais penodol gyda'r arolwg hwn yw ei fod yn caniatáu i ni gymharu ein canlyniadau gyda chynghorau eraill, rhywbeth na fu'n bosib gydag arolygon mewnol yn unig. Cafwyd 3,094 o ymatebion i'r arolwg ac mae'r canlyniadau yn cynnwys:

    i. Canran yr ymatebwyr sy'n weddol fodlon neu'n fodlon iawn ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau:

    Gwynedd: 31% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

    ii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau o ansawdd uchel (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

    Gwynedd: 55% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

iii. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn darparu gwasanaethau sy'n cynrychioli gwerth da am arian (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 43% (3ydd allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

O ran canlyniadau eraill a welir yn yr arolwg mae:

iv. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn cymryd barn preswylwyr i ystyriaeth wrth wneud penderfyniad (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 27% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

v. Canran yr ymatebwyr sy'n credu'n gyffredinol bod y cyngor yn gweithredu ar bryderon preswylwyr lleol (i ryw raddau neu i raddau helaeth):

Gwynedd: 30% (2il allan o 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vi. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cysylltu a'r cyngor yn syml:

Gwynedd: 50% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

vii. Canran yr ymatebwyr sy'n cytuno ychydig neu'n gryf bod cael gafael ar wybodaeth gyfredol am wasanaethau'r cyngor yn hawdd

Gwynedd: 45% (1af yng Nghymru o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

viii. Canran yr ymatebwyr sy'n ymddiried yn y cyngor cryn dipyn neu'n fawr iawn

Gwynedd: 37% (cyd 3ydd o'r 9 cyngor gymerodd ran yn yr arolwg)

- Bwriedir cynnal arolwg preswylwyr eto yn yr Hydref, 2027.
- Cynhaliwyd sawl arolwg lleol yng Ngwynedd gyda trigolion yn ystod y flwyddyn. Roedd hyn yn fodd i'r Cyngor wneud penderfyniadau am ddatblygiad gwasanaethau a sut i flaenoriaethu gwariant yn y dyfodol gan sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael, ymysg ffactorau eraill. Ymysg y prif rai oedd ymgynghoriadau ar:
  i. Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur
  ii. Gorchymyn Diogelu Mannau Cyhoeddus Bangor
  iii. "Compact" (Cytundeb Partneriaeth) Cyngor Gwynedd a'r 3ydd Sector
  iv. Arolwg Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu
  v. Arolwg Twristiaeth - Trigolion Gwynedd 2025
  vi. Heneiddio'n dda yng Ngwynedd
  vii. Polisi Iaith Addysg Enghreifftiol Gwynedd
  viii. Polisi Cludiant Addysg Drafft
  ix. Arolwg Cynllun Datblygu Lleol Gwynedd
-
- Mae sylwadau o'r gwaith ymgysylltu wedi cyfrannu at y casgliad bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth a bodlonrwydd, dangos gwerth am arian, sicrhau bod barn

trigolion yn dylanwadu ar benderfyniadau a defnyddio gwybodaeth ymgysylltu'n fwy cyson i lywio gwasanaethau.

- Cynhaliwyd arolygon gyda busnesau yn y sir hefyd, gan gynnwys yr Arolwg Busnes blynyddol, ac roedd rhannau penodol o ymgynghoriadau eraill ar gyfer busnesau hefyd e.g. yr Arolwg Strategaeth Gwastraff ac Ailgylchu gan fod anghenion busnesau yn dra gwahanol i'r cyhoedd yn gyffredinol. Yn yr Arolwg Busnes nododd 20% o'r ymatebion eu bod wedi derbyn cymorth gan Dîm Cymorth Busnes Cyngor Gwynedd yn y 12 mis diwethaf, a rhoddwyd cyfle i'r holl fusnesau nodi pa fath o gymorth fyddai o fudd iddynt yn y dyfodol. Nodwyd fod busnesau lleol yn parhau i wynebu pwysau economaidd sylweddol, gyda chynnydd mewn prisiau ynni, costau rhedeg ac ansicrwydd economaidd ymhlith y prif heriau. Roedd chwarter y busnesau wedi profi anawsterau recriwtio, yn bennaf oherwydd diffyg arbenigedd lleol, ac roedd rhwystrau ariannol a rheoleiddiol yn cyfyngu ar allu nifer i fuddsoddi. Er hynny, roedd uchelgais i ddatblygu, gyda 41% yn bwriadu tyfu dros y 12 mis nesaf. Roedd yr arolwg hefyd yn amlygu galw am gymorth ymarferol ac ariannol, gan gynnwys grantiau, cymorth i wella cynaliadwyedd busnesau a chefnogaeth un-i-un..
- Er bod y Cyngor yn ymgysylltu â thrigolion ar ystod o faterion ariannol a gweithredol, mae cyfle i ddatblygu ymhellach y dulliau o gynnwys y cyhoedd mewn trafodaethau am flaenoriaethau gwariant, penderfyniadau treth a chyllideb. Mae her hefyd i sicrhau bod cyfleoedd ystyrlon ar gael i drigolion gyfrannu at y trafodaethau hyn o fewn yr amserlenni tynn a osodir gan broses setliad ariannol Llywodraeth Cymru.
- Wrth ddod i gasgliadau'r hunanasesiad, ystyriwyd y canlyniadau hyn ochr yn ochr â thystiolaeth berfformiad arall. Arweiniodd hyn at gydnabod cryfderau o ran hygyrchedd gwybodaeth a pha mor hawdd yw cysylltu â'r Cyngor, ond hefyd at nodi meysydd i'w gwella o ran ymddiriedaeth, bodlonrwydd, gwerth am arian a'r graddau y mae trigolion yn gweld bod eu barn yn dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r casgliadau hyn wedi'u hadlewyrchu yn adran gasgliadau'r hunanasesiad.
- Rydym hefyd yn paratoi adroddiad blynyddol am gwynion, ac yn addasu ein gwasanaethau yn barhaus pan fydd sylwadau neu gwynion yn awgrymu gwelliannau. Gwelir fod y nifer o Gwynion Ffurfiol Dilys wedi cynyddu a'r rhai sydd wedi mynd at yr Ombwdsmon wedi codi eto eleni o'i gymharu ar un cyfnod yn 2024/2025. Mae'r patrwm / tueddiad dros gyfnod hirach yn dangos bod nifer Cwynion Ffurfiol wedi gostwng yn raddol o 2018/2019 tan 2021/2022 pan fu cynnydd sylweddol, ond mae pethau i weld yn eithaf sefydlog. Gwelwyd newid mewn diwylliant gyda'r mwyafrif o Wasanaethau yn derbyn cwynion mewn ffordd fwy positif ac adeiladol er mwyn dysgu ohonynt, gyda'r amser ymateb yn gostwng yn ôl yn raddol. Rydym yn dal i weithio ar leihau'r amser a gymerir i ymateb i gwynion trwy weithredu'r Cynllun Gofal Cwsmer.
- Mae'r Tîm Caffael yn darparu cyngor a chymorth i wasanaethau, ac yn sicrhau fod y sefydliad yn dilyn rheoliadau ac ymarfer orau yn y maes caffael. Nod y tîm yw galluogi'r Cyngor i gyflawni gwerth am arian, cryfhau a datblygu'r arbenigedd caffael, mabwysiadu'r arfer orau yn y maes a chefnogi'r farchnad leol.
- Mae'r Cyngor eisoes wedi mabwysiadu Polisi Caffael Cynaliadwy sy'n cyd-fynd ag egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Drwy fabwysiadu'r

Polisi, y bwriad yw ystyried yr effaith gymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol bosibl y gall ein penderfyniadau caffael ei gael a pha gamau y gellir eu cymryd i wneud y defnydd gorau posibl o wariant y Cyngor, er lles y Sir.

- Mae gwaith parhaus yn digwydd i gefnogi busnesau i ymateb i ofynion mewn tendrau yn sgìl unrhyw ddatblygiadau yn y maes, fel ennill achrediadau neu ymateb i ofynion y Ddeddfwriaeth newydd. Rydym yn parhau i weithio gyda'r gadwyn gyflenwi i asesu'r effaith amgylcheddol a cheisio lleihau ôl- troed carbon, a bydd helpu busnesau gyda'r trefniadau caffael yn parhau yn flaenoriaeth.
- Mae Ffordd Gwynedd yn parhau i fod yn un o gryfderau allweddol y Cyngor, a chydnabu'r Asesiad Perfformiad gan Banel hyn fel cryfder sefydliadol pwysig sydd wedi cyfrannu'n gadarnhaol at ddiwylliant a pherfformiad y Cyngor. Fodd bynnag, nodwyd hefyd fod angen ail-bwysleisio ei diben a'i rôl fel fframwaith cyffredin ar gyfer y sefydliad er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n berthnasol, yn ddealladwy ac yn ddylanwadol ar draws pob gwasanaeth.
- O safbwynt gweithgareddau mewnol y Cyngor, mae gennym drefniadau ymgysylltu a chyfathrebu da yn eu lle gyda negeseuon pwysig yn cael eu rhannu'n ganolog efo staff mewn amrywiol ffyrdd gan gynnwys bwletin staff wythnosol, Grŵp Facebook staff, y mewnrwyd, hunanwasanaeth staff, cylchgrawn Gair o Gyngor, ymweliadau staff rheng flaen a sesiynau cwestiwn ac ateb gyda'r Prif Weithredwr. Yn ychwanegol at hyn, mae gweithgareddau cyfathrebu adrannol a rheolaethol yn digwydd yn rheolaidd. Fodd bynnag rydym yn cydnabod ein bod angen sicrhau llais cryfach i'r gweithlu wrth ddatblygu'n cynlluniau strategol a thrawsnewidiol yn y dyfodol, gan ddod â'r gwahanol feysydd ymarfer sydd eisoes yn bodoli o fewn y Cyngor ynghyd, er mwyn sicrhau dull Cyngor gyfan o gynnwys ac ymgysylltu mewnol.
- Darparwyd rhaglen hyfforddiant eang ar gyfer Aelodau Etholedig yn ystod 2025/26 oedd yn cynnwys hyfforddiant craidd mewn wyth maes penodol:
    i. Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol
    ii. Cod Ymddygiad
    iii. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
    iv. Diogelu Plant ac Oedolion
    v. Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb
    vi. Eich Cyfrifoldeb fel Rhiant Corfforaethol
    vii. Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi
    viii. Trais yn erbyn Menywod, Camdrin Domestig a Thrais Rhywiol
- Yn ogystal â hyn roedd hyfforddiant yn cael ei gynnig mewn sawl maes arall ynghyd â chyfle i bob Cynghorydd dderbyn cyfweliad datblygiad personol er mwyn adnabod meysydd datblygol penodol. Mae cynnig i gynghorwyr gael sesiynau penodol cyn iddynt ymgymryd â rolau ar wahanol bwyllgorau e.e. Aelodau Cabinet, a nifer o bwyllgorau eraill megis Cynllunio, Trwyddedu, a Llywodraethu ac Archwilio. Ymhellach, cynhelir sesiynau briffio i'r aelodau hefyd, sy'n gyfle i gyflwyno diweddariad ar faterion o bwys e.e. pan fo newidiadau mewn deddfwriaeth ayyb.
- Rydym fel Cyngor yn manteisio ar gyfleoedd i arloesi a gwreiddio technoleg ddigidol i wella bywydau ein trigolion, i gydweithio yn well â phartneriaid, a chryfhau a gwella

ymatebolrwydd ein gwasanaethau i anghenion a disgwyliadau ein cwsmeriaid. I'n cynorthwyo gyda hyn, yn 2023 cymeradwywyd Cynllun Digidol newydd Cyngor Gwynedd ar gyfer y pum mlynedd rhwng 2023-28. Mae cyfnod y Cynllun hwn yn cyd-redeg efo cyfnod Cynllun y Cyngor (yn yr un modd ag y mae cyfnod Cynllun Ffordd Gwynedd). Mae cyllid wedi'i sicrhau i gyflawni rhaglen waith ddwy flynedd gyntaf y Cynllun Digidol, ac mae nifer o'r blaenoriaethau eisoes ar waith. Yn ystod 2025/26 trosglwyddwyd y cyfrifoldeb am ei weithredu i'r Adran Gwasanaethau Corfforaethol, a bydd y Cynllun yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i adlewyrchu blaenoriaethau'r Cyngor.

- Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, bu newidiadau yn arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor gyda phenodiad sawl Aelod Cabinet newydd, yn ogystal â phenodiadau newydd ymysg uwch swyddogion y Cyngor. Gwyddom y gall y newidiadau fel hyn beri heriau o ran arweinyddiaeth gyson ac achosi oedi wrth wneud penderfyniadau strategol, ond rydym wedi bod yn ymwybodol o'r posibilrwydd yma, ac wedi mynd i'r afael â'r mater. Cyfeiriodd yr Asesiad Perfformiad Panel at berthynas waith iach a phriodol rhwng aelodau a swyddogion, ac mae hyn yn cadarnhau fod y Cyngor wedi delio gyda'r newidiadau yn effeithiol.

Risgiau

- Er bod amddiffynfeydd cryf yn eu lle ar gyfer gwrthsefyll ymosodiad Seibr, gan gynnwys waliau tân, meddalwedd gwrth-firws, protocolau a pholisïau mynediad a gweithdrefnau cynnal a chadw, mae'r risg o ymosodiad seibr yn parhau i fod yn uchel a gwelwyd ymosodiadau ar sawl sefydliad cyhoeddus arall yn ystod y flwyddyn.
- Bydd gosod cyllideb gytbwys ar gyfer 2027/28 yn sialens, yn enwedig yn sgil yr angen i sicrhau bod cyllidebau adrannol yn ddigonol er mwyn darparu'r lefel angenrheidiol o wasanaethau i bobl Gwynedd, ac i osgoi gorwariant fel a welwyd yn 2024/25 a 2025/26.
- Yn 2025/26 gwelwyd cynnydd mewn grant Cyngor Gwynedd gan Lywodraeth Cymru o 3.8%, sy'n cyfateb i gynnydd gwerth £9.1m mewn ariannu allanol. Fodd bynnag, rhagwelwyd byddai angen cynyddu gwariant y Cyngor o £25.8m er mwyn "sefyll yn llonydd" a hynny oherwydd y galw am wasanaethau yn ogystal â phwysau chwyddiant yn parhau'n uchel. Ac felly, roedd rhaid cyflwyno arbedion a thoriadau a chodi lefel y Dreth Cyngor er mwyn gosod cyllideb gytbwys.
- Gwelwyd pwysau ar wasanaethau'r Cyngor yn ystod 2025/26, gyda gorwariant o £6.6m ar ddiwedd y flwyddyn, yn bennaf yn y maes gofal oedolion a phlant a'r maes gwastraff. Bu i dderbyniad grant a thanwariant ar gyllidebau corfforaethol cynorthwyo i leddfu rhywfaint ar sefyllfa ariannol, ond bu rhaid trosglwyddo £3.2m o'r Gronfa Strategaeth Ariannol i fantoli'r sefyllfa o ddiffyg ariannol yr adrannau. Adroddwyd ar sefyllfa alldro ariannol 2025/26 i'r Cabinet yn ei gyfarfod ar 19 Mai 2026. Cymeradwyodd aelodau'r Cabinet orwariant net gwasanaethau o £160k am y flwyddyn.
- Rydym wedi cynnal adolygiad mewnol a darparu cefnogaeth ychwanegol er mwyn ceisio gwella'n trefniadau casglu Treth Cyngor, ac mae camau gweithredu wedi eu cyflwyno er mwyn cynyddu'r cyfraddau casglu. Er gwaethaf hynny, mae'r mater yn parhau i fod yn

her, ac o ganlyniad bydd yn parhau i dderbyn sylw a chefnogaeth ychwanegol am y flwyddyn i ddod. Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau fod materion fel hyn yn derbyn sylw yn gynharach yn y dyfodol, a byddwn yn adolygu ein trefniadau er mwyn sicrhau fod hyn yn digwydd. Bydd Archwilio Cymru yn gwneud gwaith pellach i edrych ar ein trefniadau casglu Treth Cyngor yn ystod 2026-27.

- Mae anawsterau recriwtio mewn meysydd allweddol, megis gofal cymdeithasol ac addysg, yn gallu peryglu parhad gwasanaethau. Arweiniodd y pryder hwn at sefydlu prosiect penodol yng Nghynllun y Cyngor, sef 'Cynllunio'r Gweithlu', er mwyn mynd i'r afael â'r her a datblygu amrywiaeth o atebion. Yn dilyn argymhelliad gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, ystyriwyd y mater gan yr Asesiad Perfformiad Panel ddechrau 2026, a nododd y Panel bwysigrwydd cynllunio'r gweithlu er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau'r Cyngor. Cymeradwyodd y Panel Gynllun Yfory, sef cynllun y Cyngor i recriwtio graddedigion a phrentisiaid, ac mae'r Cyngor ei hun wedi cydnabod gwerth a phwysigrwydd y cynllun hwn ers nifer o flynyddoedd.
- Rydym yn awyddus i fireinio ein trefniadau rheoli perfformiad, ac er mwyn gwneud hynny byddwn yn adolygu a mapio'n trefniadau rheoli perfformiad presennol ar draws y Cyngor er mwyn uno prosesau, lleihau dyblygu a chreu fframwaith corfforaethol mwy cydlynol. Bydd hyn yn cynnwys:
    - Datblygu set glir o fesurau a dangosyddion perfformiad sy'n dangos cyfraniad gwasanaethau ac adrannau at gyflawni blaenoriaethau'r Cynllun Corfforaethol.
    - Integreiddio adroddiadau perfformiad â'r gofrestr risg gorfforaethol a chofrestrau risg adrannol er mwyn cryfhau'r cysylltiad rhwng cynnydd, risgiau a chamau lliniaru.
    - Cryfhau trefniadau craffu a her drwy sefydlu cyfleoedd rheolaidd i gymheiriaid o fewn ac y tu hwnt i'r Cyngor adolygu perfformiad, rhannu arfer da a chynnig her adeiladol.
    - Cryfhau trefniadau monitro, adrodd ac adolygu rheolaidd er mwyn sicrhau bod gwybodaeth perfformiad yn cael ei defnyddio'n gyson i lywio penderfyniadau, gwella gwasanaethau a chefnogi atebolrwydd corfforaethol.
- Mae'r Cyngor yn rhan o nifer o bartneriaethau lleol a rhanbarthol megis Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn a Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru. Teg fyddai nodi bod effeithiolrwydd y partneriaethau hyn yn amrywio ar hyn o bryd a byddwn yn parhau i weithio er mwyn ceisio sicrhau ein bod yn elwa o'r trefniadau hyn. Yn yr un modd mae ein perthynas gyda'r trydydd sector yn parhau i esblygu a byddwn, gyda chefnogaeth y Grŵp Cyswllt y Trydydd Sector, yn edrych ar hyn eto yn ystod 2026/27.
- Mae'r gwaith o sicrhau fod cydraddoldeb yn cael ei wreiddio'n ddwfn o fewn gwaith y Cyngor er mwyn gwella ein gwasanaethau ar gyfer pawb o bobl Gwynedd yn parhau. Datblygwyd Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2024-28 er mwyn rhoi fframwaith i wella tegwch o fewn y Cyngor, a sicrhau ein bod yn trin pobl yn ôl eu hanghenion. Mae'r gwaith yma yn parhau ac rydym yn nhrydedd flwyddyn y cynllun erbyn hyn, gyda llawer o'r pwyntiau gweithredu wedi cyflawni, er enghraifft datblygu'r fframwaith hyfforddiant, cychwyn ar sefydlu dashfwrdd data, ymchwilio hygyrchedd ein gwefan a

chodi ymwybyddiaeth ar ein hasesasid effaith.Fel sydd wedi ei nodi eisoes, mabwysiadwyd Cynllun Cyngor Gwynedd 2023-28 yn ystod 2023, ac mae tair mlynedd bellach wedi mynd heibio. Erbyn hyn, dylai'r rhan fwyaf o'r cynlluniau fod wedi eu diffinio'n glir, gyda'r adnoddau angenrheidiol wedi eu hadnabod a'u hystyried fel rhan o'r cylchoedd cynllunio a chyllidebu blynyddol. O ganlyniad, nid yw diffyg arian ynddo'i hun yn debygol o fod yn brif reswm dros beidio â chyflawni'r hyn sydd yn y Cynllun. Y risg bellach yw sicrhau bod y Cyngor yn parhau i flaenoriaethu'n glir, yn cynnal ffocws ar y prosiectau mwyaf trawsnewidiol, ac yn rheoli capasiti a dibyniaethau yn effeithiol er mwyn cyflawni'r hyn sy'n realistig erbyn diwedd Mawrth 2028.

- Mae angen datblygu dull trawsnewidiol corfforaethol unedig sy'n gosod cyfeiriad strategol clir ar gyfer newid ar draws y Cyngor cyfan. Bydd hyn yn dod â'r gwahanol raglenni, prosiectau a mentrau trawsnewid presennol at ei gilydd o fewn fframwaith cydlynol gyda blaenoriaethau, canlyniadau a threfniadau llywodraethu clir. Byddwn yn rhoi sylw arbennig i hyn wrth lunio ein Cynllun Cyngor nesaf, gan ganolbwyntio ar nifer llai o brosiectau trawsnewidiol eu natur fydd yn gwella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Gwynedd.
- Mae'r Adran Gyllid, mewn cyswllt agos â'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr, yn cynnal adolygiadau parhaus o ragolygon ariannol y Cyngor dros y 3 blynedd nesaf, gan ddiweddaru'r model yn rheolaidd pan dderbynnir gwybodaeth newydd gan adrodd yn rheolaidd i aelodau'r Cabinet ac i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (Prif Weithredwr, Cyfarwyddwyr a Phenaethiaid Adran). Mae'r cylch cynllunio corfforaethol yn cyd-fynd â chylch statudol cynllunio'r gyllideb ac rydym yn anelu i gyflwyno diweddariad blynyddol Cynllun y Cyngor i'r un cyfarfod o'r Cyngor Llawn â'r gyllideb.
- Pob blwyddyn mae'r Cyngor yn paratoi Strategaeth Ariannol ac yn gosod Cyllideb gytbwys (balanced) er mwyn sicrhau parhad gwasanaeth. Mae'r Cyngor hefyd yn cyhoeddi Datganiad o'r Cyfrifon ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol sy'n dangos ei wariant blynyddol. Mae'r gwaith o adolygu gwariant yn erbyn cyllidebau, a monitro fod arbedion wedi'u cyflawni gan holl adrannau'r Cyngor, yn sicrhau bod y gwasanaethau yn gweithredu'n effeithlon. Fodd bynnag, fel a nodwyd yn gynharach, mae'r pwysau cynyddol ar gyllideb y Cyngor yn ei gwneud hi'n anoddach i adrannau gynnal yr un lefel o wasanaethau o fewn y gyllideb a ddarperir, a mae hynny yn arwain at risg o orwariant.
- Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi creu dyletswyddau newydd i Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol gymryd elfen o gyfrifoldeb dros hyrwyddo ymddygiad da a chydweithredu â'r Pwyllgor Safonau. Cytunwyd ar brotocol a meini prawf ar gyfer asesu cyflawniad y ddyletswydd mewn gweithdy rhwng aelodau'r Pwyllgor a'r Arweinyddion. Mabwysiadwyd y rhain gan y Pwyllgor Safonau a byddent yn cyfrannu at baratoi adroddiad blynyddol y Pwyllgor. Mae'r gwaith yma wedi ei gefnogi gan gyfarfodydd a chyfathrebu rheolaidd gyda'r Swyddog Monitro.
- Mae absenoldebau salwch yn parhau i fod yn risg i gapasiti a chynaliadwyedd gwasanaethau'r Cyngor. Yn ystod 2025/26, cynyddodd y cyfartaledd dyddiau salwch y pen i 13.01 diwrnod (12.94 diwrnod yn 2024/25), gyda salwch tymor hir yn cyfrif am 62% o'r holl absenoldebau. Mae straen yn parhau i fod yn un o'r prif achosion salwch, gan gyfrannu at 28.3% o'r holl absenoldebau. Mae'r Cyngor yn ymateb drwy gryfhau

trefniadau rheoli presenoldeb, gwella systemau cofnodi a monitro salwch, darparu cymorth drwy'r Gwasanaeth Iechyd Galwedigaethol, cynnal adolygiadau o achosion unigol a datblygu cefnogaeth ac hyfforddiant i reolwyr er mwyn lleihau salwch tymor hir a chefnogi iechyd a llesiant staff.

- Pan gynhaliwyd yr Asesiad Perfformiad Panel annibynnol ddechrau 2026, nodwyd y dylai'r Cyngor adolygu capasiti ei arweinyddiaeth strategol ar lefel weithredol er mwyn ei alluogi i gyflawni ei flaenoriaethau allweddol a chynllunio ar gyfer yr hir dymor. Byddwn yn rhoi ystyriaeth bellach i hyn gan adolygu capasiti arweinyddiaeth strategol i sicrhau ein bod yn gallu cyflawni blaenoriaethau a chynllunio'n effeithiol ar gyfer y dyfodol.
- Rydym am sicrhau fod gennym drefniadau diogelu corfforaethol hollol gadarn, ac mae nifer o gamau gweithredu eisoes wedi eu cyflawni, gan gynnwys sicrhau fod y Panel Strategol Diogelu yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod yr agenda diogelu yn gorfforaethol, a chyflwyno hyfforddiant e-ddysgu diogelu ar gyfer staff. Mae meysydd fel yr agenda gwrth-derfysgaeth a caethwasiaeth fodern hefyd yn cael eu trafod dan yr agenda hwn.
- Mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i wella ac uwchraddio'r system ariannol. Mae gwaith yn mynd rhagddo i wneud hyn, ond yn y cyfamser mae risg yn bodoli os na gyflawnir hyn yn amserol.
- Mae risg wedi ei hadnabod ynghylch rheoli tîr agored sydd ym mherchnogaeth y Cyngor, sydd yn amrywio o lecyn o dir fflat, gwyrdd i chwareli ble nad oes cynllun rheoli mewn lle ar eu cyfer. Mae'r Adran Tai ac Eiddo wrthi yn adnabod rheolwyr safle ar bob safle trwy gydweithio gydag adrannau, ac mae hyn yn cynnwys codi ymwybyddiaeth adrannau o diroedd sydd wedi eu dynodi iddynt.
- Rydym yn ymwybodol o'r angen i wella ein blaengynllunio a'n rheolaeth o brosiectau ar draws y Cyngor. Mae hyn yn cynnwys rheoli'r heriau sydd ynghlwm â chyflwyno sustemau/meddalwedd TG newydd, yn ogystal â rheoli prosiectau adrannol eraill.

Gwynedd Ofalgar

Cryfderau

- Adolygiadau Statudol amserol o ansawdd da yn cael eu cynnal i sicrhau bod cynlluniau gofal a chymorth yn parhau i fod yn briodol.
- Yn ystod y flwyddyn, sefydlwyd Tîm Gwasanaethau Hybu Annibyniaeth newydd er mwyn dod â meysydd taliadau uniongyrchol, teleofal, technoleg gynorthwyol, deallusrwydd artiffisial (AI), a datblygu cwmnïau micro ynghyd. Nod y gwaith yw sicrhau bod unigolion yn cael y gefnogaeth, y dechnoleg a'r dewisiadau sydd eu hangen i fyw mor annibynnol â phosibl, yn unol â'u dymuniadau a'u hamgylchiadau.
- Cynnydd yn y defnydd priodol o daliadau uniongyrchol ac ymarfer seiliedig ar gryfder a datblygiadau yn y maes tai gofal ychwanegol.
- Bellach, gall unigolion a'u teuluoedd wneud cais uniongyrchol am offer teleofal drwy wefan y Cyngor, gan hwyluso mynediad at gefnogaeth yn gynt ac yn haws. Ar yr un pryd, mae'r gwaith o drosglwyddo trigolion o systemau analog i dechnoleg ddigidol yn

cyflymu. Cydweithia'r Cyngor yn agos gyda'r cymdeithasau Tai (Adra a Grŵp Cynefin) er mwyn sicrhau trosglwyddiad llyfn a diogel i drigolion.

- Penodwyd pennaeth newydd i'r Adran Oedolion a phennaeth newydd dros-dro i'r Adran Plant. Mae'r penodiadau yn cynnig cyfle i ail ystyried systemau a strwythurau gweithredu'r adrannau.
- Mae gwasanaethau dydd ar gyfer pobl ag anableddau dysgu yng Ngwynedd wedi parhau i ddatblygu'n sylweddol yn ystod y flwyddyn, gyda modelau amrywiol ar draws y sir yn diwallu anghenion lleol ac yn hyrwyddo lles unigolion.
- Yn ystod y flwyddyn llwyddwyd i sicrhau nad oedd rhestr aros ar gyfer asesiadau iechyd meddwl a cafodd y mwyafrif helaeth o unigolion eu hasesu o fewn tua 10 diwrnod, gyda dim ond nifer fach yn aros hyd at bythefnos. Yn ogystal, comisiynwyd nifer o leoliadau preswyl ar gyfer unigolion â phroblemau iechyd meddwl, gan sicrhau bod cymorth priodol ar gael pan oedd ei angen.
- Profodd adroddiad Llechen Lân yn ddefnyddiol yn ystod y flwyddyn aeth heibio gan ein cynorthwyo i gynllunio ar gyfer anghenion hirdymor gwasanaethau cymdeithasol. Byddwn yn diweddaru'r adroddiad yn dilyn cyhoeddi rhagamcanion demograffig newydd, a pharhau i weithredu'r argymhellion gyda ffocws ar ddatblygu dulliau ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol.
- Yn ystod y flwyddyn, datblygodd Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd ddangosfwrdd gwybodaeth byw ar gyfer unigolion yn Ysbyty Gwynedd sydd angen dychwelyd adref gyda chefnogaeth. Mae'r gwaith hwn, ynghyd â'r trefniadau diogelwch rhyddhau dros gyfnod y gaeaf, wedi bod yn llwyddiannus iawn, gyda'r systemau data cysylltiedig bellach yn cael eu mireinio a'u rhannu'n rhanbarthol ar draws y Bwrdd Iechyd.
- Mae Gwynedd yn parhau i fod yr unig awdurdod yng Ngogledd Cymru nad yw'n defnyddio gweithwyr cymdeithasol asiantaeth, sefyllfa sydd wedi'i chynnal ers dros ddegawd. Mae pob awdurdod arall yn y rhanbarth, ynghyd â'r mwyafrif llethol o gynghorau ledled Cymru, bellach yn dibynnu ar staff asiantaeth i ryw raddau. Ymysg y manteision a welir o hyn yng Ngwynedd mae gwasanaeth mwy cyson i bobl y sir ynghyd a'r gallu i ddarparu gofal drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Adolygwyd cyllidebau adrannol eto eleni er mwyn cymryd i ystyriaeth yr adnoddau ychwanegol sydd eu hangen er mwyn cwblhau unrhyw gynlluniau gweithredu, ac i ddelio gyda diffygion cyllidebol hanesyddol mewn rhai adrannau (e.g. gwasanaethau cymdeithasol). Bwriad hyn yw sicrhau bod y gwasanaethau a ddarperir yn gallu cael eu darparu oddi mewn i'r gyllideb sylfaenol er mwyn cefnogi cynaliadwyedd ariannol y Cyngor. Bydd gwaith o adolygu darpariaethau mewn cyllidebau yn parhau yn ystod y flwyddyn nesaf wrth baratoi cyllideb 2027/28.

  Mae datblygiadau pellach ym maes deallusrwydd artiffisial (AI) yn dechrau trawsnewid y ffordd mae gwasanaethau'n gweithredu. Bu peilot Beam Notes yn llwyddiannus gyda charfan o staff yn ystod dechrau 2026, a bwriedir ymestyn y defnydd o'r dechnoleg ar draws y gwasanaeth yn ystod 2026/27. Mae technoleg fel Beam Notes yn cymryd cofnod o sgwrs, gan helpu i leihau'r amser a dreulir ar waith gweinyddol a felly rhyddhau mwy o amser i weithwyr cymdeithasol ganolbwyntio ar weithio'n uniongyrchol gydag unigolion a theuluoedd.

Risgiau

- Yn dilyn cyhoeddi adroddiad Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru, Cyfiawnder Drwy Ein Dewrder, yn yr hydref, lluniwyd cynllun ymateb cynhwysfawr gan Gyngor Gwynedd i fynd i'r afael â'r argymhellion, ynghyd â materion ehangach a nodwyd mewn archwiliadau ac ymchwiliadau cysylltiedig. Roedd hwn yn adroddiad heriol a damniol, ac mae'r Cyngor yn cydnabod bod gwersi pwysig i'w dysgu. Sefydlwyd Bwrdd Ymateb i oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth yr Athro Sally Holland, cyn Gomisiynydd Plant Cymru. Mae'r bwrdd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi elwa ar fewnbwn ac arweiniad gan Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Estyn, Swyddfa Comisiynydd Plant a Llywodraeth Cymru. Ystyriwyd hefyd y dysgu o'r archwiliad ar y cyd gan AGC ac Estyn ym mis Tachwedd 2025. Mae yr Athro Sally Holland yn adrodd yn chwarterol i Gabinet y Cyngor, tra bod Grŵp Sicrwydd Gweinidogol Llywodraeth Cymru hefyd yn monitro cynnydd yn erbyn yr argymhellion. Erbyn Mawrth 2026, cyflawnwyd cynnydd cadarnhaol ar nifer o'r camau a nodwyd. Fodd bynnag, erys gwaith pellach, ac mae'r Cyngor yn parhau'n ymrwymedig i weithredu ar y dysgu a sicrhau gwelliannau parhaus. Ceir manylion yr hyn sydd eisoes wedi'i wneud a'r hyn sydd ar y gweill ar wefan: Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb
- Ni lwyddwyd i gyrraedd y targed o sicrhau nad oedd unrhyw berson yn aros mwy na 28 diwrnod am becyn gofal cartref yn dilyn asesiad. Er bod heriau staffio wedi cyfrannu at hyn, mae'r perfformiad yn dangos bod angen gwneud mwy i sicrhau bod pobl yn cael y gefnogaeth gywir ar yr adeg gywir. Mae hyn yn amlygu'r angen i gyflymu gweithredu argymhellion adroddiad Llechen Lân: Gwasanaethau Pobl Hŷn i'r Dyfodol, yn enwedig y gwaith i sicrhau bod opsiynau amgen i ofal cartref traddodiadol yn cael eu cynnig yn gyson ar draws y sir. Drwy gryfhau'r dull hwn, gallwn roi mwy o lais a dewis i unigolion, lleihau dibyniaeth ar becynnau gofal traddodiadol, a sicrhau bod cefnogaeth fwy hyblyg ar gael yn gynt i ddiwallu anghenion pobl. Byddwn yn parhau i geisio lleihau ein rhestrau aros am becynnau gofal cartref newydd a sicrhau nad oes unrhyw berson yng Ngwynedd yn aros mwy na 28 diwrnod yn dilyn asesiad gofal.
- Er mwyn sicrhau gwasanaethau o'r safon uchaf a rheoli costau'n effeithiol mae angen i'r timau gydweithio yn amlddisgyblaethol gyda phartneriaid fel iechyd, yr heddlu, y trydydd sector, a darparwyr gofal. Mae camau eisoes wedi eu cymryd i gryfhau'r partneriaethau yma er fod gwaith pellach i'w wneud, er enghraifft er mwyn datblygu'r berthynas cydweithio gyda'r Bwrdd Iechyd ymhellach.
- Os na ellir recriwtio digon o staff, mae perygl na ellir darparu'r gwasanaethau gorau i bobl Gwynedd. Rydym felly wedi adolygu cyflogau a chyflwyno prosiect Llechen Lân, yn ogystal â chyflwyno Academi Gofal er mwyn ceisio gwella'r sefyllfa ac rydym yn bwriadu cymryd camau ychwanegol cyn bo hir hefyd.
- Yn gyffredinol, cydnabuwyd bod y ffocws ar adroddiad Cyfiawnder Trwy Ein Dewrder a'r gwaith dilynol wedi cymryd y rhan fwyaf o'r amser a'r adnoddau oedd ar gael dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ei gwneud yn anodd rhoi sylw cyfartal i bob maes o'r gwasanaethau cymdeithasol.
- Gallai perthynas wan gyda rhanddeiliaid sefydliadol arwain at fethu darparu gwasanaethau o safon i bobl Gwynedd. Mae camau yn cael eu cymryd er mwyn sicrhau

perthynas dda rhwng sefydliadau, ynghyd â cheisio symleiddio'r berthynas waith sy'n gallu bod yn or-gymhleth oherwydd rhwystrau deddfwriaethol.

- Mae cynnydd yn y galw am wasanaethau ynghyd â chynnydd yng nghymhlethdod yr anghenion, yn arwain at bwysau cyllidebol a risg o orwariant.
- Mae angen ail-edrych a symleiddio'r "drysau ffrynt" i greu profiad cyson a syml i drigolion wrth iddynt gael mynediad at wasanaethau cymdeithasol.
- Yn mis Mawrth 2025 derbyniwyd y rhagolygon poblogaeth cenedlaethol, a bydd y gwaith ymchwil yn cael ei ddiweddaru ymhellach yn seiliedig ar ddata poblogaeth newydd. Yr awgrym yw bydd yn dangos lefelau galw hyd yn oed yn uwch na'r hyn a ragwelwyd yn flaenorol.
- Mae angen cryfhau'r gefnogaeth i ofalwyr di-dâl drwy sicrhau eu bod yn cael eu hadnabod yn gynnar ac yn derbyn cefnogaeth lawn i'w helpu i barhau yn eu rôl heb beryglu eu lles eu hunain.
- Mae pryder yn bodoli ynghylch argaeledd swyddogion adolygu statudol yn y maes Plant a Theuluoedd. Os nad oes swyddog adolygu statudol ar gael nid oes sicrwydd bod llais y plentyn sydd mewn gofal yn cael ei glywed.
- Os nad yw gwasanaethau Busnes, Comisiynu a Monitro Gofal yn effeithiol ac effeithlon, mae risg i ddiogelwch unigolion a staff, yn ogystal a risg nad ydym yn darparu gwasanaethau o safon i drigolion Gwynedd.
- Methu cael asesiadau iechyd meddwl y tu allan i oriau gwaith yn gadael unigolion mewn perygl ac yn wynebu trallod iechyd meddwl heb gefnogaeth briodol.
- Roedd angen sicrhau system newydd gan fod y system ddata gwasanaethau cymdeithasol bresennol (WCCIS) yn dod i ben. Bu cydweithio â awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru i gwblhau'r broses dendro o fewn amserlen heriol, ac ers hynny mae system MOSAIC wedi ei phrynu. Yn ystod y flwyddyn, dechreuodd gwaith helaeth o baratoi ar gyfer y trosglwyddiad, gan gynnwys cynllunio, gwaith technegol a pharatoi'r gweithlu. Mae'r amserlen weithredu bellach wedi llithro i Fawrth 2027. Disgwylir i MOSAIC wella cofnodi, rhannu gwybodaeth a chyfathrebu â thrigolion a phartneriaid
- Er bod arweinyddiaeth dros dro yn ei le erbyn hyn, pery ansicrwydd o ran arweinyddiaeth adran plant y Cyngor yn yr hir dymor.
- Mae lleihau'r elw sylweddol a wneir gan gwmnïau preifat wrth ddarparu gwasanaethau plant yn flaenoriaeth cenedlaethol. Mae angen cyflymu'r gwaith ar gryfhau darpariaeth leol, gan gynnwys ehangu cyfleoedd maethu, lleihau'r ddibyniaeth ar leoliadau costus y tu allan i'r sir, a sicrhau bod mwy o blant a phobl ifanc yn gallu aros yn agos at eu teuluoedd, eu hysgolion a'u cymunedau.Gall unrhyw gystadleuaeth gyda chyflogau staff mewn siroedd/rhanbarthau cyfagos beri anfodlonrwydd ac effeithio'r farchnad recriwtio.

Gwynedd Yfory

Cryfderau

- Mae deilliannau arolygu ysgolion cynradd ac uwchradd yn gryf yn gyffredinol.

- Cymorth o ran bodloni anghenion dysgwyr/darpariaeth y Gymraeg – gan gynnwys y gyfundrefn Addysg Drochi.
- Mae Strategaeth Ysgolion newydd ar gyfer 2026-2036 bellach mewn lle
- Rydym yn parhau i wneud gwelliannau i ysgolion ledled y sir, ac mae cynlluniau cyfalaf sylweddol ar y gweill ym Mangor a Bontnewydd. Rydym wedi cymryd pob cyfle i ymgeisio am gymorth grant i'n galluogi i foderneiddio adeiladau presennol a datblygu adeiladau newydd.

Risgiau

- Mae newidiadau yn nemograffeg y sir yn effeithio hyfywdra'r gyfundrefn ysgolion presennol, ac yn cynyddu'r diffyg tegwch sy'n bodoli oherwydd yr amrywiaeth sylweddol yng nghost y pen fesul disgybl.
- Mae angen gwella trefniadau monitro, gwerthuso a hyrwyddo presenoldeb disgyblion. Mae lefelau presenoldeb yn parhau i fod yn bryder yn dilyn y cwymp fu yn sgil y pandemig. Mae presenoldeb hefyd yn flaenoriaeth gan y Llywodraeth ac Estyn.
- Rydym am gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer disgyblion sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol, a sicrhau trefniadau monitro a gwella ansawdd y ddarpariaeth honno.
- Sicrhau bod ein trefniadau diogelu mewn ysgolion i'r safon gorau posib a chyflawni cynnwys ein Cynllun Ymateb i Droseddu. Rydym eisoes wedi creu gwasanaeth newydd Tîm Diogelu a Llesiant yn yr Adran Addysg.
- Methu darparu gwasanaethau Arlwyo a Glanhau yn ddigonol a diogel.

Gwynedd Lewyrchus

Cryfderau

- Fel rhan o Fframwaith Adfywio newydd, mae Cynllun Adfywio Lleol wedi'i baratoi ar gyfer pob un o'r 13 ardal adfywio yn y Sir. Mae'r cynlluniau yn adlewyrchu blaenoriaethau lleol amlygwyd yn ystod ymgynghoriad 'Ardal Ni' gyda thrigolion Gwynedd. Mae'r Cynlluniau Adfywio Lleol yn ymgorffori prosiectau sydd yn cael eu datblygu gan ystod eang o sefydliadau a grwpiau sydd yn weithredol yn yr ardal ac yn cyfrannu at wella ardaloedd yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol neu yn ddiwylliannol er mwyn creu cymunedau iach, llewyrchus, deinamig a chynaliadwy gyda lle amlwg a chanolog i'r iaith Gymraeg.
- Datblygwyd 'Cynllun Economi Ymwelwyr Cynaliadwy Gwynedd ac Eryri 2035' ar y cyd gan Gyngor Gwynedd ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri. Mae hwn yn gynllun sy'n torri tir newydd ac yn cyflwyno ffordd newydd o weithredu, cefnogi a mesur effaith yr economi ymweld yn ei gyfanrwydd ar yr ardal.
- Eto eleni rydym wedi llwyddo i sicrhau cyllid sylweddol o ffynonellau megis y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Gyda'n partneriaid rydym wedi dyrannu £8.2 miliwn pellach o'r Gronfa Ffyniant Gyffredin i gynlluniau sydd wedi cyfrannu tuag at gryfhau economi

Gwynedd, gwella sgiliau a chreu balchder yn ein cymunedau. Yn ystod 2025/26 mae dros 780 o fusnesau, mentrau a sefydliadau wedi derbyn cymorth, dros 100 o swyddi wedi eu creu neu warchod ac mae dros 300 o bobl lleol wedi derbyn hyfforddiant.

- Mae'r cyfanswm o dros £32.6 miliwn wedi ei fuddsoddi yng nghynlluniau lleol ers 2022 gan Cyngor Gwynedd drwy law y Gronfa Ffyniant Gyffredin.
- Mae Cynlluniau Canol Tref wedi eu creu ar gyfer sawl tref yng Ngwynedd. Mae'r Cynlluniau yn rhoi sylw penodol i ardaloedd stryd fawr, gyda'r bwriad o'u gwneud yn lleoedd mwy deniadol i ymweld â nhw ac i weithio, ac i annog pobl i dreulio eu hamser a'u harian yno.
- Cynlluniau newydd ar y gweill yn cynnwys:
    - Gwaith i sefydlu'r Ardoll Ymwelwyr wedi datblygu'n dda a byddwn yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus ar hyn yn fuan yn 2026-27.
    - Parc Gwyddoniaeth Trawsfynydd – pecyn cyfalaf £20M bron yn ei le a'r achos busnes wedi ei gwblhau.
    - Cynllun Twf – prosiect Glynllifon a Bryn Cegin yn disgwyl cymeradwyaeth y CBC mis yma.

Risgiau

- Goblygiadau yn sgil Rhaglen ARFOR yn dod i ben wedi arwain at addasiad posibl i Gynllun y Cyngor i sefydlu prosiect newydd "Nôl i Wynedd"
- Rhaglen SPF yn dod i ben gyda dim ond trefniadau pontio rhannol wedi eu cadarnhau drwy'r cronfeydd newydd (Balchder Bro a Chronfa Twf Leol).
- Lleihad sylweddol mewn cyllid, hyblygrwydd a sgôp o gymharu â SPF yn creu ansicrwydd ynghylch cyllid a gweinyddiaeth i'r dyfodol.
- Canol Dinas Bangor – parhau i geisio sefydlu'r pecyn cyfalaf ar gyfer yr Hwb Iechyd.

Gwynedd Glyd

Cryfderau

- Cynlluniau Cyfalaf sylweddol wedi eu cwblhau ac ar y gweill.
- Y Cynllun Gweithredu Tai yn parhau i greu tai cymdeithasol newydd, dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd, ac i brynu tai er mwyn eu gosod.
- Siop Un Stop Tai wedi ei sefydlu ym mis Medi 2025 ar gyfer holl ymholiadau tai a llety.
- Wedi cynyddu'r Premiwm Treth Cyngor Tai gwag i 150% i'w ail fuddsoddi yn y maes tai yn bennaf.
- Mae'r adran Tai ac Eiddo yn cydweithio'n agos gyda'i bartneriaid tai ar ddatblygiadau tai cymdeithasol a chanolraddol er mwyn cyfarch y galw aruthrol sydd am dai yng Ngwynedd.
- Trwy'r Cynllun Prynu i Osod, mae'r Cyngor yn prynu tai oddi ar y farchnad agored er mwyn eu gosod i drigolion sydd mewn angen tai.

- Er mwyn dod â mwy o dai gwag yn ôl i ddefnydd, mae nifer o ymyraethau ar gael i bobl Gwynedd fanteisio arnynt
- Mae'r Adran wedi llwyddo i ddenu arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyflawni mwy o ddatblygiadau tai fforddiadwy.
- Mae'r Cyngor yn helpu nifer o drigolion y sir i osgoi neu ddod allan o dlodi tanwydd trwy ddarparu cefnogaeth i insiwleiddio tai, derbyn offer gwresogi effeithiol ac uwchraddiadau eco-gyfeillgar megis paneli solar a phympiau gwres sy'n defnyddio aer.

Risgiau

- Mae digartrefedd yn parhau yn her er i nifer o ymyraethau newydd gael eu cyflwyno. Byddwn yn parhau i weithredu nifer o gynlluniau uchelgeisiol gan gynnwys datblygu sawl safle ychwanegol ar draws y sir.
- Rheoli disgwyliadau a thensiynau yn ymwneud â cheisiadau datblygiadau tai cymdeithasol.
- Cynnydd yng nghostau adeiladu, argaeledd contractwyr a gweithlu digonol. Ee manddaliadau, tai Prynu i Osod.
- Defnydd o bwerau cynllunio fel un o'n ymyraethau ar gyfer Rheolaeth Ail-Gartrefi yn y sir, yn arbennig yng nghyd-destun Erthygl 4.
- Yn dilyn achos llys dros Erthygl 4, bydd y Cyngor yn edrych eto ar y sefyllfa ac yn ystyried os oes unrhyw wersi i'w dysgu.

Gwynedd Werdd

Cryfderau

- Rydym wedi diweddaru ein 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur' er mwyn cwrdd â'r uchelgais o fod yn garbon-sero net ac yn ecolegol gadarnhaol.
- Strategaeth Llifogydd wedi ei mabwysiadu sy'n amlygu'r peryglon presennol ac i'r dyfodol o lifogydd ac erydu arfordirol yn y Sir a sut y bydd y risgiau yn cael eu rheoli.
- Wedi denu grantiau sylweddol gan y Llywodraeth i ariannu cynlluniau ynni adnewyddadwy, fflyd cerbydau trydan a phwyntiau gwefru cyhoeddus ac i'r fflyd.
- Parodrwydd i arbrofi ac arloesi - bydd grantiau Llywodraeth Cymru a chyfalaf gan y Cyngor yn ariannu prosiectau i ostwng allyriadau carbon.
- Cydweithio â phartneriaid allanol – Cyngor yn arwain Partneriaeth Natur Gwynedd
- Yn unol â Chynllun Fflyd Werdd y Cyngor, pan fo cerbydau angen eu hadnewyddu rydym wedi bod yn trosi i gerbydau trydan ble mae hynny'n bosibl. Mae 48% o geir a faniau bychan y Cyngor bellach yn gerbydau trydan.

Risgiau

- Er mwyn cyrraedd y targed ailgylchu cenedlaethol o 70% ac osgoi dirwy ariannol, mae angen newid ymddygiadau trigolion fel eu bod yn ailgylchu mwy ac yn lleihau y gwastraff gweddilliol sydd angen ei gasglu.
- Mae angen moderneiddio safleoedd trin gwastraff ynghyd â gwneud gwelliannau i'n canolfannau ailgylchu.
- Mae risg sylweddol yn bodoli o lifogydd o'r môr allai gael effaith niweidiol ar nifer o gymunedau megis Fairbourne.
- Methu cyflawni targedau amlder mewn perthynas ag arolygiadau hylendid bwyd a safonau bwyd.
- Gall disgwyliadau a newidiadau cenedlaethol arwain at oedi wrth i ni ddatblygu Cynllun Datblygu Lleol newydd.
- Mae 'Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur 2022/23 – 2029/30' y Cyngor yn gosod uchelgais sy'n nodi y "bydd Cyngor Gwynedd yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030." Mae'r Cynllun yn cynnwys amrediad eang o brosiectau i leihau allyriadau carbon ac i amsugno carbon ar draws nifer o feysydd: adeiladau ac ynni, symud a thrafnidiaeth, gwastraff, caffael, llywodraethu, defnydd tir, ecoleg. Rydym yn cydnabod mai gwaith hirdymor yw cyrraedd sero net, ond mae'r cynllun hwn yn gosod nifer o gerrig milltir penodol er mwyn i ni fesur ein cynnydd bob blwyddyn hyd at 2030. Mae yna gymaint o ffactorau polisi, deddfwriaethol a chyllidol sydd y tu hwnt i reolaeth y Cyngor, ac yn cael dylanwad enfawr ar allu'r Cyngor i wireddu nifer o'n prosiectau, megis cyflenwadau rhwydwaith grid trydan neu buddsoddiad mewn ynni a gwresogi adeiladau. Er hynny, mae'r Cyngor wedi dewis gwario cyllid sylweddol o'n coffrau er mwyn gwireddu nifer o'r prosiectau yn ein Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur, ac fe neilltuwyd £3M ar gyfer y gwaith. Er gwaethaf y buddsoddiad fodd bynnag, mae'r ansicrwydd o safbwynt y ffactorau allanol yn golygu fod cwrdd â'r uchelgais i fod yn ...'garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030' yn parhau i fod yn risg ymarferol a chyllidol i'r Cyngor.
- Er bod y Cyngor wedi buddsoddi £3M o'i gyllid ei hun ers 2022, sy'n barhad o fuddsoddiad sylweddol mewn cynlluniau arbed carbon ers 2010, mae risg gwirioneddol i beidio bod â chyllid nag adnoddau dynol i gyflawni'r Cynllun Argyfwng Hinsawdd a Natur yn ei gyfanrwydd.
- Mae gwaith yn parhau er mwyn sicrhau bod y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a gofynion statudol eraill yn integreiddio'n llawn o fewn ein fframweithiau cynllunio corfforaethol, yn hytrach na gwneud hynny mewn ffordd sy'n ymatebol a thameidiog ei natur.
- Diogelu adeiladau peryglus e.e. Corbett Arms, a gweithredu ar faterion gorfodaeth rheolaeth adeiladu.

Gwynedd Gymraeg

Cryfderau

- Mae'r Gymraeg yn rhan allweddol o holl waith y Cyngor, ac unrhyw gynlluniau sydd yn effeithio ar bobl Gwynedd. Cymraeg yw prif iaith weinyddol y Cyngor, sy'n golygu ein bod yn un o gyflogwyr mwyaf y wlad sydd yn defnyddio'r Gymraeg o ddydd i ddydd yn y gweithle.
- Rydym yn cynnig cyfleon i staff ddatblygu eu sgiliau ieithyddol gan gynnwys hyfforddiant i ddysgu Cymraeg ac i ddatblygu sgiliau Cymraeg ymhellach, a hynny ar draws pob lefel.
- Mae'r Cyngor wedi moderneiddio ac ehangu'r ddarpariaeth drochi ar gyfer dysgu Cymraeg i blant, ac mae'n bwriadu cynyddu'r ddarpariaeth addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn y sir ymhellach.

Risgiau

- Efallai bod canfyddiad gan rai bod angen Cymraeg o safon 'Prifysgol' i weithio i'r Cyngor, ac er nad yw hynny'n gywir, gall effeithio ar recriwtio i rai swyddi.
- Pobl ifanc Cymraeg eu hiaith yn mudo.

Casgliadau'r Hunanasesiad

Ar sail y dystiolaeth sydd wedi ei chasglu, y casgliad cyffredinol yw bod Cyngor Gwynedd yn gweithredu o sylfaen sefydliadol gadarn. Mae'r trefniadau llywodraethu, craffu, rheoli risg, ymgysylltu a monitro perfformiad yn darparu sail resymol i'r Cyngor asesu ei berfformiad, ac mae enghreifftiau megis y Cynlluniau Prentisiaethau a Graddedigion a'r £8.2m o gyllid drwy'r Gronfa Ffyniant Gyffredin yn 2025/26 sy'n dangos gallu'r Cyngor i droi blaenoriaethau'n gamau ymarferol.

Wrth werthuso'r darlun ehangach, mae'r data meintiol yn dangos perfformiad cymysg. Mae canlyniadau Arolwg Llais Staff 2026 yn gadarnhaol o ran balchder a phwrpas, gyda 80% yn cytuno bod y Cyngor yn lle da i weithio ac 88% yn cytuno bod eu gwasanaeth yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl Gwynedd. Fodd bynnag, mae'r canlyniadau ar y tri gofyniad perfformiad yn is, sef 69.6% ar gyflawni dyletswyddau'n effeithiol, 65.8% ar wneud y defnydd gorau o adnoddau, a 69.2% ar drefniadau i sicrhau perfformiad effeithiol. Mae'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol (2025) yn atgyfnerthu'r darlun hwn: er bod Gwynedd yn gymharol gryf o ran cysylltu â'r Cyngor a chael gwybodaeth, dim ond 31% oedd yn fodlon ar sut mae'r Cyngor yn rhedeg pethau, 43% oedd yn gweld gwasanaethau fel gwerth da am arian, a 37% oedd yn ymddiried yn y Cyngor (dylid nodi fod Cyngor Gwynedd ymysg y 3 awdurdod lleol gorau allan o 9 a gymerodd rhan yn yr Arolwg yn 2025). Mae hyn yn dangos bod sylfeini cadarn, ond bod angen gwneud mwy i gryfhau ymddiriedaeth, bodlonrwydd a'r defnydd cyson o wybodaeth i wella gwasanaethau. Mae'r casgliad hwn wedi'i lywio'n uniongyrchol gan safbwyntiau trigolion, staff, busnesau a rhanddeiliaid eraill, ac mae'r Cyngor wedi ystyried y

safbwyntiau hynny wrth adnabod ei gryfderau, ei risgiau a'i flaenoriaethau gwella ar gyfer 2026/27.

Gellir dod i gasgliad bod y Cyngor yn perfformio'n effeithiol mewn sawl maes, ond bod angen cryfhau'r trefniadau ar gyfer gwella a datblygu gwasanaethau, ynghyd a sut mae mesur cynnydd. Mae risgiau sylweddol yn parhau o ran cynaliadwyedd ariannol, costau a staffio gwasanaethau gofal, cynaliadwyedd ysgolion, cyfraddau ailgylchu a'r uchelgais i fod yn garbon sero net ac yn ecolegol gadarnhaol erbyn 2030. Mae'r rhain yn feysydd lle mae'r effaith ar drigolion yn uniongyrchol, gan gynnwys mynediad at wasanaethau amserol, costau gwasanaethau, profiad plant a phobl ifanc, ac ansawdd yr amgylchedd lleol.

Gwelliannau ychwanegol wedi eu hadnabod ar gyfer 2026-27

Gwelliant	Cyfrifoldeb
• Byddwn yn diweddaru adroddiad Llechen Lân yn dilyn cyhoeddi rhagamcanion demograffig newydd, a pharhau i weithredu'r argymhellion gyda ffocws ar ddatblygu dulliau ataliol a lleihau dibyniaeth ar wasanaethau gofal traddodiadol.	Dylan Owen
• Gweithredu ar yr argymhellion yn dilyn yr Asesiad gan Banel.	Grŵp Llywodraethu

Gwelliannau sydd wedi eu hadnabod o fewn Hunanasesiadau yn y gorffennol ac a fydd yn parhau i 2026/27.

Gwelliant	
Byddwn yn:	**Ein cynnydd hyd yma**
• Mewn ymateb i argymhellion astudiaeth gan Archwilio Cymru byddwn yn edrych i wella'n trefniadau comisiynu gwasanaethau.	• Camau gweithredu wedi eu llunio mewn ymateb i'r argymhellion o fewn astudiaeth Archwilio Cymru. Cyflwynwyd y cynllun i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2026 gyda'r bwriad o fod wedi ymateb yn llawn i'r argymhellion erbyn diwedd 2026/27.
• Gwella hyfforddiant ar adnabod a rheoli risg.	• Mae gwaith i gryfhau trefniadau rheoli risg yn cael ei ddatblygu mewn ymateb i argymhellion gan ein hyswirwyr ac fel rhan o'r Asesiad Perfformiad gan Banel. Bydd hyn yn cynnwys datblygu a darparu rhaglen hyfforddi i Aelodau a rheolwyr fel perchnogion risg, gyda sesiynau adnewyddu blynyddol.
• Gweithredu ar yr argymhellion perthnasol yn adroddiad Local Partnerships.	• Comisiynwyd Local Partnerships yn ystod 2025/26 i gynnal adolygiad annibynnol o drefniadau llywodraethu'r Cyngor a gwnaed nifer o argymhellion. Mae gan y Grŵp

	Llywodraethu raglen waith ar waith i ymateb i'r argymhellion a ddeilliodd o'r gwaith hwnnw.
• Ystyried sut y gallwn adeiladu ar yr arolwg preswylwyr a drefnwyd gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru/Data Cymru a chael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau.	• Bu Gwynedd yn rhan o'r Arolwg Preswylwyr Cenedlaethol yn 2025, gyda 3,094 o ymatebion. Mae'r canlyniadau'n darparu sail gymharol newydd i ddeall barn trigolion, a bydd y Cyngor yn defnyddio'r canfyddiadau ar y cyd hefo data a gwybodaeth arall er mwyn llywio gwelliannau gwasanaeth. Bwriedir cynnal arolwg preswylwyr eto yn Hydref 2027 a byddwn yn parhau i edrych ar opsiynau er mwyn cael mwy o wybodaeth/tystiolaeth er mwyn ein galluogi i wella gwasanaethau fel rhan o'n hymateb i argymhellion yr Asesiad gan Banel.
• Adolygu'r drefn o adnabod a sgorio risgiau, yn enwedig er mwyn sicrhau cysondeb ar draws y sefydliad o ran y broses asesu a sgorio.	• Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwyr Corfforaethol wedi bod yn edrych yn benodol ar y risgiau uchel iawn er mwyn sicrhau bod y risgiau cywir wedi eu cynnwys a bod cysondeb yn y modd y maent yn cael eu sgorio. Mae trefniadau newydd hefyd wedi eu rhoi ar waith i geisio cysoni sgoriau risgiau uchel iawn, ac mae gwaith pellach i gryfhau'r strategaeth a'r gofrestr risg gorfforaethol yn parhau.
• Parhau hefo gwaith i gryfhau ein trefniadau mewnol er mwyn sicrhau bod gofynion/canllawiau statudol neu ddeddfwriaeth yn elfen greiddiol ac wedi eu hintegreiddio'n well hefo ein gwaith cynllunio corfforaethol.	• Yn ystod 2025/26 parhawyd â'r gwaith o gryfhau'r defnydd o asesiadau effaith, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth ohonynt fel rhan o weithredu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at sicrhau bod gofynion statudol, gan gynnwys cydraddoldeb, y Gymraeg a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn cael eu hystyried yn rhan annatod o drefniadau cynllunio a gwneud penderfyniadau'r Cyngor. • Yn ogystal, nodir bod argymhellion yr Asesiad Perfformiad gan Banel yn rhoi pwyslais ar gryfhau'r cysylltiadau rhwng cynllunio corfforaethol, rheoli perfformiad a rheoli risg. Mae cynllun gweithredu er mwyn ymateb i'r argymhellion o fewn yr asesiad wedi ei greu fydd yn cyfrannu at y gwelliant hwn.
• Parhau hefo gwaith o adolygu Cynllun Asedau'r Cyngor er mwyn sicrhau bod y blaenoriaethau yn parhau i fod yn gyfredol yn sgil profiadau a datblygiadau'r blynyddoedd diwethaf.	• Yn ystod 2025/26, parhawyd â'r gwaith o ddatblygu'r trefniadau rheoli asedau yn dilyn mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau 2024–2034 (Gorffennaf 2024). Adolygwyd polisïau perthnasol a chynhaliwyd trafodaethau ag adrannau'r Cyngor i sicrhau bod y blaenoriaethau'n adlewyrchu anghenion a datblygiadau diweddar. Mae'r gwaith o baratoi Cynllun Gweithredu Asedau Eiddo yn parhau ac yn gysylltiedig â datblygu'r Strategaeth Rheoli Eiddo Corfforaethol.

• Edrych i ddatblygu ffordd o fesur gwerth am arian (effeithlonrwydd) ar lefel gwasanaeth fel rhan o'n trefniadau herio perfformiad.	• Mae'r Adran Gyllid wedi dechrau'r gwaith o ddatblygu fframwaith meincnodi er mwyn edrych ar feysydd lle gellir ystyried ymyraethau priodol ar gyfer gwella gwerth am arian lle'n bosib, sy'n cynnwys cymharu gyda chostau cymharol mewn awdurdodau eraill. Mae'r gwaith hwn ar y gweill yn ystod 2026/27 gyda'r bwriad o allu adrodd ar ganlyniadau cychwynnol cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Bydd hyn yn waith parhaus ac mae ystod o ddatrysiadau addas eraill o dan ystyriaeth hefyd, gan gynnwys gweithredu yn unol ag awgrymiadau gan CIPFA.

Tystiolaeth bellach i'n canfyddiadau:

Cynllun Cydraddoldeb Strategol Cyngor Gwynedd 2024-28

Datganiad Amrywiaeth Cyngor Gwynedd

Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cydraddoldeb Cyngor Gwynedd 2024-25

Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunan Asesiad Cyngor Gwynedd 2024-25

Datganiad Llywodraethu 2025/26

Adroddiad Blynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol 2025-26

Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio 2025-26

Adroddiad Blynyddol 2023-24 Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd a Môn

Adroddiad Blynyddol 2024-25 Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol

Strategaeth Cyfranogiad 2023

Cynllun Ffordd Gwynedd 2023 - 28

Cofrestr Risg Corfforaethol

Gweithdy blynyddol gyda'r Rheoleiddwyr a'r Aelodau Cabinet

Adroddiadau perfformiad Aelodau Cabinet unigol

Adroddiad Blynyddol ar y Weithdrefn Cwynion, Ymholiadau a Diolchiadau'r Adran Plant a Chefnogi Teuluoedd ac Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant ar gyfer 2022-23

Polisi a Chanllaw Caffael Cynaliadwy

Datganiad o'r Cyfrifon 2024-25

Cynllun Asedau Cyngor Gwynedd 2019/20 – 2028/29

Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2025

Adroddiad Archwilio Cymru: Rheolaeth Strategol ar Falansau a Chronfeydd wrth Gefn - Cyngor Gwynedd

Adroddiad Blynyddol 2025-26 Pwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd

Cyfrifon Terfynol 2025/26 – Alldro Refeniw

Cyngor Gwynedd – Asesiad o Gynaliadwyedd Ariannol (2024) (archwilio.cymru)

Cynnyrch Archwilio Mewnol

Cyfansoddiad Cyngor Gwynedd

Arolygon Staff